

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Huw.Irranca-Davies@senedd.cymru

6 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, hoffem roi gwybod ichi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi'i gynnal ar 22 Mai 2023.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Lorna Slater ASA, y Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol a Bioamrywiaeth. Yn bresennol hefyd yn y cyfarfod oedd Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig, Diwygio Tir ac Ynysoedd, Dr Theresa Coffey, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Alistair Jack AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, James Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, Rebecca Pow, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ansawdd a Chadernid yr Amgylchedd a Mrs Katrina Godfrey, yr Ysgrifennydd Parhaol yn absenoldeb Gweinidog Gogledd Iwerddon.

Rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol DEFRA ddiweddariad ar Fframwaith Bioamrywiaeth y DU yn ogystal â diweddariad ar gynlluniau ar gyfer ymateb y DU i Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Trafodwyd cais Llywodraeth yr Alban am gael ei heithrio o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU o ran ei Chynllun Dychwelyd Ernes. Gofynnodd Ysgrifennydd Gwladol yr Alban am gynnal gwaith pellach cyn y gellid ystyried eithriad er gwaethaf y ffaith bod prosesau cywir y fframwaith yn cael eu dilyn gan Lywodraeth yr Alban. Rhannom ein pryder sylweddol fod prosesau ychwanegol yn cael eu hychwanegu y tu hwnt i brosesau'r Fframwaith Cyffredin.

Wedi hynny, trafodwyd bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno gwaharddiad ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Mae'r cynnig hwn wedi ei wneud yn gyflym heb fawr o ystyriaeth wedi'i roi i gydweithio. Gan gofio am ein huchelgais a rennir i fynd i'r afael â'r mater o weips gwlyb, pwysleisio fanteision cydweithio a manteision defnyddio dulliau prosesau'r fframweithiau cyffredin.

Mater nesaf yr agenda oedd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio). Rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol DEFRA ddiweddariad inni ynghylch cynlluniau diweddaraf Llywodraeth y DU. Tynnem sylw at yr angen am dryloywder ynghylch effeithiau'r Bil ar feysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli ac eglurder ynghylch gwahaniaeth barn posibl a all godi yn sgil y Bil.

I gloi, rhoddodd Llywodraeth yr Alban gyflwyniad ynghylch ei gweledigaeth a'i huchelgais ar gyfer yr Economi Las.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 26 Mehefin.

Bydd datganiad ynghylch y cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU ar: <https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs>.

Cofion,



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd
Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales,
and Trefnydd



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newis Hinsawdd
Minister for Climate Change

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.